## Tair Gweddi Bonaventure ar y Pasg

i

O Arglwydd Dad Sanctaidd, dangos i ni pa fath ddyn sydd yn hongian er ein mwyn ni ar y Groes, yr Hwn yn ei ddioddefaint a oedd yn gyfrifol am i'r creigiau gracio a thorri mewn cydymdeimlad, a'i farwolaeth yn dwyn y meirw yn ôl yn fyw.

Dyro i'm calon gracio a thorri wrth edrych arno. Dyro i'm henaid dorri gyda chydymdeimlad am ei ddioddefaint. Dyro iddo rwygo mewn galar am fy mhechodau, y rhai y bu ef farw drostynt. Ac yn derfynol, dyro i mi fod yn wastadol gyda chariad wedi ei gynysgaeddu drosto.

ii

O fy Nuw Iesu, yr wyf ym mhob ffordd yn annheilwng ohonot Ti. Eto, fel Joseff o Arimathea, yr wyf am gynnig gofod i Ti. Cynigiodd ef ei fedd ei hun, cynigiaf fi fy nghalon.

Tyrd i mewn i dywyllwch fy nghalon, fel yr aeth dy gorff i mewn i dywyllwch bedd Joseff. Gwna fi yn deilwng i'th dderbyn, gan fwrw allan bob pechod fel y medraf gael fy llenwi â'th oleuni ysbrydol.

iii

Drain a chroes a hoelion a phicell,
doluriau, ein hetifeddiaeth gyfoethog...
Boed i'r rhain lenwi ein hysbrydoedd,
a chydag ymgysegriad Cariad roddi gwefr...
Crist, gyda dwylo y
llwfrddyn a fradychwyd,
Crist, er ein mwyn a gaethiwyd,
Crist, ar y goeden sur,
a laddwyd dros ddyn –
boed moliant llwyr i Ti.